

Arolwg Cenedlaethol o Foddhad y Dysgwr yng Nghymru 2003

Crynodeb: Dysgwyr yn Ne-orllewin Cymru

Sail ar gyfer dysgwyr yn Ne-orllewin Cymru: 1177 AB, 218 Dysgu yn y Gwaith wedi'i bwysoli

Cyflwyniad

Mae'r crynodeb hwn yn archwilio rhai o'r canfyddiadau ar gyfer dysgwyr ym maes Addysg Bellach (AB) a Dysgu yn y Gwaith yn Ne-orllewin Cymru sy'n deillio o'r Arolwg o Foddhad y Dysgwr. Ni cheir yma ddadansoddiad o Ddysgu Cymunedol ac Oedolion o ganlyniad i faint cymharol isel sail rhai o'r rhanbarthau. Rydym wedi nodi peth gwybodaeth am ddemograffeg isod. Mae'n bosibl y gall gwahaniaethau allweddol yma effeithio ar y dadansoddiad drwy gydol y crynodeb. Dyma'r dadansoddiad o oedran a'r dull dysgu ar gyfer ymatebwyr yn Ne-orllewin Cymru:

	AB		Dysgu yn y Gwaith	
	Pob AB	AB yn y De-orllewin	Pob Dysgu yn y Gwaith	Dysgu yn y Gwaith yn y De-orllewin
Sail wedi'i bwysoli:	4707	1177	1001	218
Oed	%	%	%	%
16-18	25	29	36	38
19-24	14	16	49	45
25-54	50	45	15	16
55+	12	9	1	1
Dull dysgu				
Amser Llawn	32	36	50	52
Rhan-amser sy'n fwy na 3 awr yr wythnos	33	31	30	28
Rhan-amser sy'n llai na 3 awr yr wythnos	34	32	18	17
% sy'n mynychu yn ystod y dydd	69	73	92	92

Ddim yn gwybod/ddim wedi nodi heb eu cynnwys.

Boddhad cyffredinol gyda'r profiad dysgu

Ymysg dysgwyr ym maes AB yn Ne-orllewin Cymru, cafwyd lefelau uchel o foddhad, ychydig yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Roedd y rhan fwyaf o'r canlyniadau yn cymharu'n agos â'r darlun cenedlaethol. Roedd y lefelau boddhad â Dysgu yn y Gwaith yn y rhanbarth hwn yn adlewyrchu'r darlun cenedlaethol.

Cyfradd foddhad	AB		Dysgu yn y Gwaith	
	Pob AB	AB yn y De-orllewin	Pob Dysgu yn y Gwaith	Dysgu yn y Gwaith yn y De-orllewin
Sail wedi'i bwysoli:	4707	1177	1001	218
	%	%	%	%
Eithriadol fodlon	27	26	23	22
Bodlon iawn	43	41	46	48
Gweddol fodlon	22	24	24	22
Heb fod yn un na'r llall	2	3	2	2
Eithriadol	5	6	4	5
anfodlon/anfodlon iawn/eithaf anfodlon				

Ddim yn gwybod/ddim wedi nodi heb eu cynnwys.

Boddhad gyda'r addysgu/hyfforddiant

Unwaith eto yn y rhanbarth hwn, roedd y sgôr ar gyfer boddhad cyffredinol gydag ansawdd yr addysgu ar gyfer AB a Dysgu yn y Gwaith yn debyg iawn i'r cyfartaledd cyffredinol.

Cyfradd foddhad	AB		Dysgu yn y Gwaith	
	Pob AB	AB yn y De-orllewin	Pob Dysgu yn y Gwaith	Dysgu yn y Gwaith yn y De-orllewin
Sail wedi'i bwysoli:	4707	1177	1001	218
	%	%	%	%
Eithriadol fodlon	30	31	22	23
Bodlon iawn	36	36	37	35

Gweddol fodlon	24	23	33	33
Heb fod yn un na'r llall	3	2	3	1
Eithriadol	6	7	5	6
anfodlon/anfodlon iawn/eithaf anfodlon				

Ddim yn gwybod/ddim wedi nodi heb eu cynnwys.

Gofynnodd yr arolwg i ddysgwyr ystyried amrywiol fesurau penodol ar gyfer ansawdd athrawon / hyfforddwyr neu aseswyr a rhoi sgôr iddynt o 1 i 10 lle'r oedd 10 yn golygu eithriadol fodlon. Dengys y tabl canlynol:

- Ar gyfer dysgwyr AB, roedd y gyfran a oedd yn barod i roi 9 neu 10 allan o 10 yn debyg i'r cyfartaledd ar gyfer yr holl fesurau, neu ychydig yn is.
- Ar gyfer Dysgu yn y Gwaith, rhoddwyd 9 neu 10 allan o 10 am ansawdd a hygyrchedd y deunyddiau mewn llai o lawer o achosion yn y De-orllewin na'r cyfartaledd cenedlaethol cyffredinol. Roedd yr holl fesurau eraill yn debyg i'r cyfartaledd, neu ychydig yn is.

Mesur (% a gafodd sgôr o 9 neu 10 allan o 10)	AB		Dysgu yn y Gwaith	
	Pob AB	AB yn y De-orllewin	Pob Dysgu yn y Gwaith	Dysgu yn y Gwaith yn y De-orllewin
Sail wedi'i bwysoli:	4707	1177	1001	218
Gallu i esbonio'r pwnc	54	53	48	46
Gwrandao ar eich anghenion	51	53	47	43
Y pwnc yn ddiddorol/hwyllog	47	45	36	34
Yn gwneud defnydd da o amser y wers / sesiwn	44	40	37	35
Y gefnogaeth a gewch ganddynt	43	42	40	39
Ansawdd / hygyrchedd deunyddiau	43	42	38	32
Ymdrin â dysgwyr aflonyddgar	43	39	36	35
Adborth rheolaidd / prydlon	42	40	37	39
Eich deall chi a'r ffordd yr ydych yn hoffi dysgu	40	40	39	39
Targedau clir i'ch helpu i wella	39	38	38	36

Noder: Mae celloedd wedi'u huwchleuo ar gyfer AB neu Dysgu yn y Gwaith os yw % y rhanbarth o leiaf +/-5% yn uwch neu'n is na chyfartaledd cyffredinol Cymru. Ddim yn gwybod/ddim wedi nodi heb eu cynnwys.

Gweinyddu / rheoli dysgu

O safbwynt rheoli a gweinyddu dysgu (mesurau penodol wedi'u cynllunio i archwilio sut y mae'r darparwr yn rheoli'r profiad dysgu):

- Roedd y canlyniadau ar gyfer AB yn y De-orllewin bron union yr un fath â'r ffigurau cenedlaethol, gyda gwahaniaethau bach iawn yn unig.
- Ar gyfer Dysgu yn y Gwaith yn y rhanbarth hwn, roedd dysgwyr yn gyffredinol yn llai tebygol o roi 9 neu 10 allan o 10 i'r categorïau a restrir, o'u cymharu â'r ffigurau cyffredinol i Gymru.

Mesur (% a gafodd sgôr o 9 neu 10 allan o 10)	AB		Dysgu yn y Gwaith	
	Pob AB	AB yn y De-orllewin	Pob Dysgu yn y Gwaith	Dysgu yn y Gwaith yn y De-orllewin
Sail wedi'i bwysoli:	4707	1177	1001	218
	%	%	%	%
Helpu pobl newydd i setlo i mewn	54	54	48	49

Rhoi cymorth pan fydd gen i neu ddysgwyr eraill broblemau	50	50	45	45
Rheoli amserlenni fel eu bod mor addas ag sy'n bosib i'r dysgwr	45	44	42	38
Gwneud yn siŵr bod digon o hyfforddwy/aseswyr ar gael				
Rhoi gwybod am newidiadau yn amseroedd y sesiynau	41	40	35	32
Aseswyr yn dod i asesu fel y cynlluniwyd	N/A	N/A	52	47
Gweld yr un aseswr bob tro	N/A	N/A	56	52

Noder: Mae celloedd wedi'u huwcholeuo ar gyfer AB neu Dysgu yn y Gwaith os yw % y rhanbarth o leiaf +/-5% yn uwch neu'n is na chyfartaledd cyffredinol Cymru. Ddim yn gwybod/ddim wedi nodi heb eu cynnwys.

Bodddhad gyda chyfleusterau

Yn debyg i'r ymarfer i roi sgôr i athrawon / hyfforddwy ac aseswyr, gofynnodd yr arolwg i ddysgwyr ystyried yr amrywiol fathau o gyfleusterau gan roi sgôr o 1 i 10 iddynt lle bydd 10 yn eithriadol fodlon. Dengys y tabl isod % y dysgwyr sy'n rhoi sgôr o 9 neu 10 allan o 10 (y graddau gorau). Dengys y tabl:

- Yn AB, y gwahaniaeth mwyaf o'i gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol oedd y sgôr calonogol o uchel ar gyfer cyfleusterau Gofal Plant – sef cynnydd o 9% ar y cyfraddau cenedlaethol.
- Ar gyfer Dysgu yn y Gwaith yn y De-orllewin, rhoddwyd sgôr uchel i gyfleusterau cymdeithasu â dysgwr eraill o'i gymharu â'r ffigurau cyffredinol ar gyfer Dysgu yn y Gwaith yng Nghymru.

Mesur (% a gafodd sgôr o 9 neu 10 allan o 10)	AB		Dysgu yn y Gwaith	
	Pob AB	AB yn y De-orllewin	Pob Dysgu yn y Gwaith	Dysgu yn y Gwaith yn y De-orllewin
Sail wedi'i bwysoli:	4707	1177	1001	218
	%	%	%	%
Offer / cyfleusterau TG	55	57	54	55
Llyfrgell a chanolfan ddysgu	52	51	37	36
Cyfleusterau ar gyfer anableddau / anawsterau dysgu	52	50	47	47
Cyfleusterau gofal plant	49	58	30	33
Gwasanaethau cefnogi dysgu	48	49	44	42
Gwasanaethau cefnogi eraill (cyngori, cyngor ar gyllid ac ati)	43	45	34	34
Cyngor gyrfaol	41	44	41	41
Offer / cyfleusterau chwaraeon	41	44	35	36
Offer arbenigol arall sy'n berthnasol i'r dysgu	40	39	39	37
Ffreutur/caffi	33	36	37	39
Cyfleusterau ar gyfer cymdeithasu â dysgwyr eraill	31	31	32	40

Dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

Ar gyfer ystod o elfennau'r rhaglen ddysgu, gofynnwyd i ddysgwyr i ba raddau, os o gwbl, oedd eu dysgu ar gael iddynt drwy gyfrwng y Gymraeg.

- Ar gyfer maes AB a maes Dysgu yn y Gwaith yn y rhanbarth hwn, roedd y canlyniadau yn debyg iawn i'r darlun cenedlaethol.

	AB		Dysgu yn y Gwaith	
	Pob AB	AB yn y De-orllewin	Pob Dysgu yn y Gwaith	Dysgu yn y Gwaith yn y De-orllewin

Sail wedi'i bwysoli:	4707	1177	1001	218
	%	%	%	%
Cymorth gan hyfforddwy / tiwtoriaid / aseswyr y tu allan i wersi / sesiynau				
Rhywfaint	11	10	18	19
I gyd	9	6	15	12
Dim	69	72	48	48
Cyfathrebiad lafar mewn gwersi/sesiynau				
Rhywfaint	11	11	17	19
I gyd	6	5	12	10
Sail wedi'i bwysoli:	72	75	52	53
Deunyddiau ysgrifenedig / taflenni				
Rhywfaint	13	13	22	26
I gyd	10	7	15	13
Dim	68	71	47	45

Noder: Mae celloedd wedi'u huwcholeuo ar gyfer AB neu Dysgu yn y Gwaith os yw % y rhanbarth o leiaf +/-5% yn uwch neu'n is na chyfartaledd cyffredinol Cymru. Ddim yn gwybod/ddim wedi nodi heb eu cynnwys.

Wrth archwilio a oedd darparwyr wedi gofyn i ddysgwyr a hoffent ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg o gwbl:

- Dywedodd 24% o ddysgwyr AB yn Ne-orllewin Cymru eu bod wedi cael cynnig (o'u cymharu â 32% ar gyfer dysgwyr AB yn gyffredinol).
- Dywedodd 34% o ddysgwyr Dysgu yn y Gwaith yn Ne-orllewin Cymru eu bod wedi cael cynnig (o'u cymharu â 35% ar gyfer dysgwyr Dysgu yn y Gwaith yn gyffredinol).

O ran dewis i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg:

- Roedd yn well gan 8% o ddysgwyr AB yn Ne-orllewin Cymru ddysgu'n gyfan gwbl neu'n rhannol drwy gyfrwng y Gymraeg (o'u cymharu â 6% ar gyfer dysgwyr AB yn gyffredinol).
- Roedd yn well gan 8% o ddysgwyr Dysgu yn y Gwaith yn Ne-orllewin Cymru ddysgu'n gyfan gwbl neu'n rhannol drwy gyfrwng y Gymraeg (o'u cymharu â 8% ar gyfer dysgwyr Dysgu yn y Gwaith yn gyffredinol).

Cyn dechrau ar y cwrs

Cafwyd gwahaniaethau sylweddol yn y modd yr oedd dysgwyr yn Ne-orllewin Cymru yn defnyddio ffrydiau cyngor o'u cymharu â'r darlun cenedlaethol:

- Ar gyfer AB yn Ne-orllewin Cymru, roedd dysgwyr yn fwy tebygol o fod wedi siarad â chynghorwr gyrfaol yr ysgol ac adran mynediadau'r coleg. Mae'r hyfforddwy a'r tiwtoriaid yn y darparwr hyfforddiant yn parhau fel y ffynhonnell wybodaeth fwyaf poblogaidd.
- Yn achos dysgwyr Dysgu yn y Gwaith yn Ne-orllewin Cymru, roedd dysgwyr yn llai tebygol o lawer o fod wedi siarad â chyflogwyr na'r cyfartaledd i Gymru (50% o'i gymharu â 55% yn gyffredinol) er y pery mai honno yw'r ffynhonnell wybodaeth fwyaf poblogaidd. Mae'n ddiddorol nodi hefyd bod dysgwyr Dysgu yn y Gwaith yn y rhanbarth hwn yn fwy tebygol o lawer o geisio cyngor gan gynghorwr gyrfaol yn yr ysgol, sy'n nodwedd gyffredin o Ddysgu yn y Gwaith, gyda chynnydd o 5% ar y cyfartaledd cenedlaethol.

Ffynhonnell y cyngor (% yn defnyddio pob ffynhonnell)	AB		Dysgu yn y Gwaith	
	Pob AB	AB yn y De-orllewin	Pob Dysgu yn y Gwaith	Dysgu yn y Gwaith yn y De-orllewin
Sail wedi'i bwysoli:	4707	1177	1001	218
	%	%	%	%
Hyfforddwy/tiwtoriaid yn y sefydliad darparu	40	41	36	37
Ffrindiau	36	38	37	40
Adran mynediadau'r coleg	27	33	16	19
Rhieni / aelodau eraill o'r teulu	25	29	39	43
Cyflogwr	24	23	55	50

Athrawon yn yr ysgol	22	26	26	29
Gyrfa Cymru	21	24	43	47
Cynghorwr gyrfaol yr ysgol	20	27	33	38
Gwasanaeth Learn Direct	7	9	7	8
Gwefan Learn Direct	4	5	4	4

Noder: Mae celloedd wedi'u huwcholeuo ar gyfer AB neu Dysgu yn y Gwaith os yw % y rhanbarth o leiaf +/-5% yn uwch neu'n is na chyfartaledd cyffredinol Cymru. Ddim yn gwybod/ddim wedi nodi heb eu cynnwys.

O safbwynt gwneud y penderfyniad a chael y dewis cyntaf:

- Llwyddodd 78% o ddysgwyr AB yn Ne-orllewin Cymru i sicrhau eu *dewis cyntaf o ddarparwr* (o'u cymharu â 77% ar gyfer AB yn gyffredinol).
- Llwyddodd 88% o ddysgwyr AB yn Ne-orllewin Cymru i sicrhau eu *pwnc/cymhwyster dewis cyntaf* (o'u cymharu â 87% ar gyfer AB yn gyffredinol).
- Llwyddodd 62% o ddysgwyr Dysgu yn y Gwaith yn Ne-orllewin Cymru i sicrhau eu *dewis cyntaf o ddarparwr* (o'u cymharu â 61% ar gyfer Dysgu yn y Gwaith yn gyffredinol).
- Llwyddodd 79% o ddysgwyr Dysgu yn y Gwaith yn Ne-orllewin Cymru i sicrhau eu *pwnc/cymhwyster dewis cyntaf* (o'u cymharu â 81% ar gyfer Dysgu yn y Gwaith yn gyffredinol).

I archwilio'r data hwn ymhellach, ewch i wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru. Gallwch lawrlwytho adroddiadau a dadansoddi'r data eich hun.

<http://newydd.cymru.gov.uk/topics/educationandskills/research-and-evaluation/?lang=cy>

